BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

2021-2036

# ADDYSG

Tachwedd 2025



## PAPUR CEFNDIR - BP43

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

# Crynodeb gweithredol

i. Mae'r Papur Cefndir Addysg hwn wedi'i lunio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg 2021 - 2036. Mae'n asesu'r seilwaith addysgol sydd ei angen i gefnogi'r twf a ragwelir mewn tai ac anghenion dysgu esblygol ar draws Bro Morgannwg yn ystod cyfnod y cynllun.

ii. Mae'r papur yn gwerthuso a all capasiti ysgolion presennol fodloni'r galw yn y dyfodol, yn nodi lle mae angen cyfleusterau newydd neu estynedig, ac yn amlinellu'r dull strategol o gyflawni'r gofynion hyn. Mae'n canolbwyntio ar ddarpariaeth meithrin, cynradd, uwchradd ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gyfeirio at ymrwymiadau addysg cyfrwng Cymraeg ac enwadol o dan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

iii. Mae dadansoddiad o nifer y disgyblion y rhagwelir y byddant yn cael eu cynhyrchu o ddyraniadau CDLIN a safleoedd annisgwyl yn dangos yr angen canlynol am leoedd ysgol:

- Cyn-ysgol / Meithrin 500 o leoedd (250 cyfwerth ag amser llawn)
- Cynradd 1,400 o leoedd
- Uwchradd (11 i 16 oed) 1,020 o leoedd
- Uwchradd (Ôl-16) 1,020 o leoedd

iv. Mae'r disgyblion a gynhyrchwyd wedi'u hasesu yn ôl clwstwr ysgol (Y Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth) ac yn ôl ysgol unigol. Pan nad oes digon o gapasiti i ateb y galw a gynhyrchir gan ddatblygiad CDLIN, mae'r Papur yn nodi sut bydd hyn yn cael ei ddatrys, ac yn nodi darpariaeth ysgolion newydd ac estyniadau i ysgolion i fynd i'r afael â hyn. Mae hefyd yn nodi'r dull o ymdrin â chyfraniadau ariannol drwy broses Adran 106.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

